Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-21-17 PTN4

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Simon,

7 Awst 2017

**Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), Cynllun Cymunedau**

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau'r amserlen ar gyfer caffael corff dosbarthu i weinyddu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r camau gweithredu i hysbysu'r partïon sydd â buddiant.

Ar 29 Mai, cyhoeddwyd yr Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (copi wedi'i atodi), sef y cam cyntaf yn y broses gaffael. Mae'n ceisio rhybuddio'r partïon sydd â buddiant am y broses gaffael sydd ar ddod.

Yn y gorffennol, cynghorais y byddai'r ymarfer tendro yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr amserlen ymhellach, gallaf gadarnhau mai fy mwriad yw cyhoeddi'r tendr ym mis Medi gan osgoi cyfnod yr haf. Credaf y bydd y partïon sydd â buddiant yn croesawu hyn a bydd yn caniatáu i swyddogion barhau i weithio â chydweithwyr yn yr adran cymunedau ac adran yr amgylchedd i ddatblygu'r ddogfennaeth tendro.

Mae swyddogion wedi cysylltu â'r rheini sydd wedi cael yr Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw er mwyn cadarnhau'r amserlen. Maent hefyd wedi siarad yn uniongyrchol â rhanddeiliaid sydd â buddiant er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol. Fy mwriad o hyd yw penodi corff dosbarthol yn ddiweddarach eleni.

Yn unol â'r llythyr a anfonais atoch ar 5 Mehefin, rwy'n hapus i'm swyddogion gynnal sesiwn friffio gyda'r Pwyllgor ar ddatblygiad y cynllun.

Yn gywir

Mark.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.